# DEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2016

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

**Rhan 4 - Cyflwr Anheddau**

***Pennod 2 – Cyflwr Anheddau***

***Adran 92 – Rhwymedigaeth y landlord o ran cyflwr yr annedd***

264. Os yw'r adran hon wedi ei hymgorffori fel un o delerau'r contract heb ei haddasu, mae'n ofynnol fod landlord yn cadw'r annedd mewn cyflwr da. Mae hyn yn gymwys i strwythur a thu allan yr annedd yn ogystal â'r gosodiadau gwasanaeth (er enghraifft, mewn perthynas â d#r, nwy, trydan, gwresogi a glanweithdra).